# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 10 Mai 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Mesur Iechyd a Lles (Cymru)

**C8 Jonathan Morgan:** A ganiateir i bartneriaethau iechyd lleol neu fyrddau partneriaeth strategol y Gweinidog, o dan ei Mesur iechyd a lles (Cymru) gyflwyno, o dan awdurdod dirprwyedig, wasanaethau cymdeithasol a ddarperir gan gynghorau lleol? (OAQ11254)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Bydd gwaith grwpiau gorchwyl a gorffen i weithredu cynllun yr NHS yn helpu i oleuo pa ddeddfwriaeth sydd ei hangen arnom er mwyn rhoi'r newidiadau ar waith. Mae'n rhy gynnar i ddweud pa ddeddfwriaeth a allai fod ei hangen arnom. Y bwriad cyffredinol yw y bydd y 'byrddau partneriaeth strategol' yn gosod y cyfarwyddyd strategol ar gyfer cydweithio rhwng llywodraeth leol a'r NHS, yn ymrwymo adnoddau ac yn monitro pa mor effeithiol yw cynllunio a chydweithio rhwng darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol. Yn y pen draw fodd bynnag, y partneriaid statudol fydd yn gyfrifol, ac yn atebol, am ddarparu gwasanaeth. Dan y ddeddfwriaeth bresennol, gall awdurdodau lleol ddirprwyo swyddogaethau penodol sydd yn ymwneud â iechyd i gyrff yr NHS, ac i'r gwrthwyneb, yn ogystal â llunio trefniadau cyllido ar y cyd.

Caiff 'partneriaethau iechyd lleol' eu datblygu er mwyn ysgwyddo cyfrifoldebau newydd ar gyfer comisiynu a chyflwyno gofal iechyd ar gyfer pobl yn eu cymdogaeth.

Bydd yn bwysig i'r 'byrddau partneriaeth strategol' a'r 'partneriaethau iechyd lleol' gynnal cysylltiadau gweithio cadarn a byddwn yn cynllunio swyddogaethau'r cyrff hyn a'r trefniadau ar gyfer aelodaeth yn unol â hynny.

'Byrddau partneriaeth strategol' a 'partneriaethau iechyd lleol' yw'r teitlau gweithredol a ddefnyddir yng nghynllun yr NHS. Penderfynir ar y teitlau ffurfiol yng ngoleuni gwaith manwl y grwpiau gorchwyl ar eu ffurf a'u swyddogaethau.

### Y Nifer o Frechiadau gyda Brechlyn y Frech Goch, Clwy'r Pennau a Rwbela

**C9 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch y nifer o blant sydd yn cael eu brechu â'r brechiad MMR? (OAQ11193)

**Jane Hutt:** Mae nifer y plant dwyflwydd oed yng Nghymru sydd yn cael eu brechu â'r brechiad MMR yn parhau i godi yn dilyn y cyfraddau isel a welwyd ar ddechrau 1999. Mae'r ffigurau diweddaraf ar gyfer y chwarter a ddaeth i ben ym mis Chwefror 2001, yn dangos mai 89 y cant yw'r gyfradd bresennol. Mae hyn yn galonogol, ond mae llawer iawn i'w wneud o hyd os ydym am gynnal lefelau digonol o amddiffyniad yn y boblogaeth er mwyn osgoi'r perygl o achosion o'r afiechyd, yn enwedig y frech goch.

Mae pryder rhieni mewn perthynas â defnyddio MMR yn effeithio ar y nifer sydd yn manteisio arno ac yr ydym yn cynyddu ein hymdrechion er mwyn galluogi rhieni i wneud penderfyniadau deallus ynghylch

iechyd eu plant. Mae cyngor arbenigol yn parhau i hybu defnyddio brechiad MMR fel yr amddiffyniad gorau yn erbyn yr afiechydon hyn.

Cyhoeddwyd llyfryn gwybodaeth a bydd hysbysebion, mewn papurau newydd ac ar y teledu, a fideo addysgol yn ategu at hwn.

**Deintyddion yn Sir y Fflint (Derbyn Cleifion yr NHS)**

**C10 Alison Halford:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i wrthsefyll y cynnydd yn nifer y deintyddion yn Sir y Fflint nad ydynt mwyach yn barod i dderbyn cleifion yr NHS? (OAQ11172) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yn yr NHS yng Nghymru**

**C11 Brian Hancock:** Sut mae'r Gweinidog yn bwriadu datblygu'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn yr NHS yng Nghymru? (OAQ11251) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Adsefydlu Pobl sydd yn Dioddef o Drawma Niwrolegol Aciwt**

**C12 Val Feld:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y ddarpariaeth gyfredol yng Nghymru ar gyfer adsefydlu pobl sydd yn dioddef o drawma niwrolegol aciwt? (OAQ11281)

**Jane Hutt:** Cyfrifoldeb awdurdodau iechyd lleol yw darparu gwasanaethau iechyd, gan gynnwys trawma niwrolegol. Rhaid iddynt asesu anghenion eu hardal leol a thrwy weithio gydag ymddiriedolaethau'r NHS, grwpiau iechyd lleol ac eraill, gynllunio a blaenoriaethu eu gwasanaethau iechyd drwy eu rhaglenni gwella iechyd i fodloni'r angen hwnnw gyda'r adnoddau sydd ar gael.

**Annibyniaeth y Gwasanaeth Cefnogi a Chysylltu**

**C13 Gareth Jones:** Sut mae'r Gweinidog yn bwriadu sicrhau annibyniaeth unrhyw wasanaeth cefnogi a chysylltu newydd i'r cyhoedd ar gyfer yr NHS yng Nghymru? (OAQ11260) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Oblygiadau'r Coelcerthi i Iechyd Pobl**

**C14 Glyn Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar oblygiadau'r coelcerthi mawr sydd yn llosgi yng nghefn gwlad i iechyd pobl? (OAQ11190)

**Jane Hutt:** Cyflwynais ddatganiad gerbron y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar effaith clwy'r traed a'r genau ar iechyd pobl ar 2 Mai. Amddiffyn iechyd y cyhoedd oedd blaenoriaeth pennaf y Llywodraeth wrth ddelio â chlwy'r traed a'r genau. Mae arweiniad a gyhoeddwyd ar gael gwared ar garcasau yn ceisio lleihau'r perygl i iechyd pobl drwy ddewis, asesu a rheoli safleoedd yn ofalus.

**Gwasanaethau Aciwt ar gyfer plant yng Nghymru**

**C15 David Lloyd:** Sut mae'r Gweinidog yn bwriadu datblygu gwasanaethau aciwt ar gyfer plant yng Nghymru? (OAQ11273) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Datblygiad y Campws Meddygol ym Mangor**

**C16 Gareth Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad byr ar ddatblygiad y campws meddygol ym Mangor? (OAQ11250) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Cynllun Gweithredu Ymddiriedolaeth NHS Sir Gaerfyrddin**

**C17 Delyth Evans:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad byr ar hynt cynllun gweithredu Ymddiriedolaeth NHS Sir Gaerfyrddin? (OAQ11175)

**Jane Hutt:** Mae fy swyddogion wedi bod yn monitro perfformiad yr ymddiriedolaeth yn agos drwy ei gymharu â'r cynllun gweithredu a ddatblygwyd yn sgîl argymhellion y Comisiwn Gwella Iechyd, ac ym mis Ebrill, ymwelodd tîm aml ddisgyblaethol â'r ymddiriedolaeth i asesu'r cynnydd hwn. Mae'r ymddiriedolaeth wedi dod yn ei blaen yn dda o ran gofynion eang adroddiad y Comisiwn Gwella Iechyd, gan ddwyn gwelliannau go iawn i gleifion a staff. Fodd bynnag, mae'r ymddiriedolaeth a swyddogion y Cynulliad yn cydnabod bod angen rhywfaint mwy o waith.

Bydd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn trafod cynnydd yr ymddiriedolaeth yn ei gyfarfod ar 16 Mai.

### Problemau Iechyd sydd yn Deillio o Amddifadedd yn y Cymoedd

**C18 Geraint Davies:** Sut mae'r Gweinidog yn bwriadu mynd i'r afael â'r problemau iechyd sydd yn deillio o amddifadedd yn y Cymoedd? (OAQ11269) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Rhestr Fferyllol Ysbyty Cymunedol Cas-gwent

**C19 David Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar benderfyniad y Cynulliad i wyrdroi penderfyniad Awdurdod Iechyd Gwent i gymeradwyo cais Mr Robert Parker Davies i gael ei gynnwys ar restr Fferyllol Ysbyty Cymunedol Cas-gwent? (OAQ11191)

**Jane Hutt:** Er i Awdurdod Iechyd Gwent gymeradwyo cais Mr Robert Parker Davies, derbyniodd y Cynulliad apeliadau gan grwpiau a oedd â diddordeb yn hyn o beth, dan Reoliadau (Gwasanaethau Fferyllol) yr NHS, 1992.

Aeth y Cynulliad ati'n ofalus i ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd mewn perthynas â digonolrwydd y gwasanaeth fferyllol a ddarperir yng Nghas-gwent, a daeth i'r casgliad nad oedd yn angenrheidiol nac yn ddymunol caniatáu'r cais hwn. Cafodd yr apeliadau eu cynnal yn unol â hynny.

Mae'r Cynulliad wedi cyhoeddi llythyr penderfyniad manwl i bob grŵp perthnasol yn hyn o beth. Nid yw'n gallu ailagor y mater.

### Amserau Ymateb Ambiwlansiau

**C20 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar amserau ymateb ambiwlansiau? (OAQ11194)

**Jane Hutt:** Caiff amserau ymateb eu cofnodi'n chwarterol ac fe'u mesurir drwy eu cymharu â phedair safon perfformiad. Ceir amrywiadau rhwng perfformiadau ardaloedd awdurdodau unedol ond dengys y ffigurau diweddaraf ar gyfer Cymru gyfan (Hydref – Rhagfyr 2000):

- bod oddeutu 92 y cant o alwadau brys yn cyrraedd cyn pen 14, 18 a 21 munud mewn ardaloedd trefol, gwledig ac ardaloedd sydd â phoblogaeth denau, fel ei gilydd;
- bod oddeutu 91 y cant o'r holl alwadau brys eraill yn cyrraedd cyn pen yr amseroedd hyn;
- bod oddeutu 85 y cant o alwadau brys meddygon yn cyrraedd cyn pen 15 munud o'r amser penodol.

Gwelwyd gwelliannau dros y flwyddyn ddiwethaf yn y safon wyth-munud ar gyfer ymateb cyntaf i alwadau brys ar gyfer achosion lle mae bywyd rhywun mewn perygl (50 y cant rhwng Hydref a Rhagfyr 2000 o'i gymharu â 46 y cant yn yr un cyfnod yn 1999).

Mae'r ymddiriedolaeth ambiwlans yn gweithio'n galed i wella perfformiad drwy ddefnyddio'r cyllid ychwanegol a oedd ar gael gan awdurdodau iechyd a'r £500,000 a ddarparwyd gan y Cynulliad yn 2000.

**Cyllido mwy Cynaliadwy ar gyfer y Sector Gwirfoddol**

**C21 Eleanor Burnham:** Pa lwyddiant y mae'r Gweinidog wedi'i gael o ran sicrhau cyllido mwy cynaliadwy ar gyfer y sector gwirfoddol? (OAQ11280)

**Jane Hutt:** Yr ydym wedi ymgymryd ag adolygiad strategol o gyllido'r sector gwirfoddol. Yr angen am gyllido hirdymor oedd un o'i argymhellion allweddol. Mae hyn yn cael ei roi ar waith. Yr ydym eisoes wedi trefnu bod nifer o gynlluniau grant y Cynulliad Cenedlaethol yn newid i sail cyllido tair blynedd gan roi mwy o hyder a sicrwydd i gyrff yn eu gwaith cynllunio.

Yr ydym hefyd wedi ymrwymo i ddatblygu cod ymarfer ar gyfer cyllido'r sector gwirfoddol. Bydd hyn yn sicrhau mwy o gysondeb o ran cyllido cynlluniau grant, drwy osod rhesymwaith cyffredin ar gyfer cyllido. Mae fersiwn drafft ar fin cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad a disgwylir y bydd y cod terfynol ar gael yn yr hydref.

**Dyfodol Adeilad Ysbyty Brenhinol Caerdydd**

**C22 Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddyfodol adeilad Ysbyty Brenhinol Caerdydd? (OAQ11177) [W]

**Jane Hutt:** Mae Awdurdod Iechyd Bro Taf a grwpiau iechyd lleol wrthi'n llunio cynlluniau gwasanaeth ar gyfer dwyrain Caerdydd. Byddant yn ystyried safle'r Ysbyty Brenhinol a disgwylir eu hargymhellion drafft yn ddiweddarach eleni.

Yr wyf yn siŵr y gwnewch chi ddeall na allaf ddweud fawr fwy wrthych tan y bydd y cyrff amrywiol wedi cwblhau'u trafodaethau ac inni dderbyn eu hargymhellion.

**Effaith Clwy'r Traed a'r Genau ar Iechyd Dynol**

**C23 Glyn Davies:** Pryd y gwnaeth y Gweinidog drafod effaith clwy'r traed a'r genau ar iechyd dynol gyda'r Prif Swyddog Meddygol ddiwethaf? (OAQ11189)

**Jane Hutt:** Yr wyf wedi cael trafodaethau rheolaidd gyda'r Prif Swyddog Meddygol a swyddogion eraill ynghylch goblygiadau clwy'r traed a'r genau i iechyd pobl, gan gynnwys ei effaith ar deuluoedd a chymunedau a'r peryglon posibl yn sgîl cael gwared ar garcasau.

**Meddygaeth Breifat o Fewn y Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru**

**C24 Richard Edwards:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar feddygaeth breifat o fewn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru? (OAQ11233) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Ymddiriedolaeth NHS Gwasanaethau Ambiwlans Cymru**

**C25 Geraint Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad byr ar Ymddiriedolaeth NHS Gwasanaethau Ambiwlans Cymru? (OAQ11257) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Dyfodol Cartref Danygraig**

**C26 Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddyfodol Cartref Danygraig, Porthcawl? (OAQ11176) [W]

**Jane Hutt:** Yn y blynyddoedd diwethaf, mae awdurdodau lleol yn ardal hen Gyngor Sir Morgannwg Ganol a thu hwnt wedi lleihau eu hymrwymiad i gymryd lleoedd yn Nhanygraig. Mae’r Gymdeithas Sglerosis Ymledol wedi lleihau ei hymrwymiad hithau. Canlyniad hynny yw gadael Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr â baich ariannol mawr i gynnal cartref sydd yn fwy na’r hyn sydd ei angen arno.

Yn sgîl cynnal arolwg Gwerth Gorau, mae’r awdurdod lleol wedi penderfynu na all barhau i dalu am y ganolfan ac y dylid ailfuddsoddi adnoddau i ddarparu gwasanaethau gofal seibiant i bobl ym Mhen-y-bont mewn ffyrdd eraill. Mae’r awdurdod lleol wrthi’n siarad hefyd ag ymddiriedolaeth yr NHS ynghylch defnyddio’r ganolfan mewn ffyrdd eraill.

### Gwella Triniaethau Canser yng Nghymru

**C27 John Griffiths:** Pa gamau a fydd yn cael eu cymryd i wella ymhellach driniaethau canser yng Nghymru? (OAQ11216) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Mesur Iechyd a Lles (Cymru)

**C28 Jonathan Morgan:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ei Mesur iechyd a lles (Cymru) arfaethedig? (OAQ11253)

**Jane Hutt:** Nid oes gennyf ddim i’w ychwanegu ar hyn o bryd i’r hyn a ddywedodd Prif Weinidog Cymru yn y ddadl ar 13 Mawrth 2001.

### Wythnos Ymwybyddiaeth o Awtistiaeth

**C29 Janet Davies:** Sut mae’r Gweinidog yn bwriadu nodi wythnos ymwybyddiaeth o awtistiaeth yng Nghymru? (OAQ11252) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Lleihau Straen Mewn Ardaloedd Gwledig

**C30 Richard Edwards:** Pa gamau sy’n cael eu cymryd i leihau’r straen mewn ardaloedd gwledig o ganlyniad i glwy’r traed a’r genau? (OAQ11234) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Cwestiynau i’r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

### Polisi Ysgolion Gwledig

**C6 Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ein hysbysu o’r datblygiadau hyd yma ar lunio polisi ysgolion gwledig fel a nodwyd yn y cytundeb partneriaeth? (OAQ11185) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.***

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Mae’r adolygiad sydd yn cael ei gynnal ar hyn o bryd gan y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ar gyflenwi lleoedd mewn ysgolion yn cyffwrdd â materion sydd yn ymwneud ag ysgolion gwledig. Byddaf yn ystyried polisi ar gyfer y dyfodol yng ngoleuni ei gasgliadau. Caiff yr adroddiad ei drafod mewn Cyfarfod Llawn cyn toriad yr haf.

*Atebwyd cwestiwn 7 yn y Siambr.*

### Y Fargen Newydd (Nifer y Swyddi a Grëwyd)

**C8 Janet Ryder:** A oes asesiad wedi ei wneud o nifer y swyddi newydd a grëwyd gan y Fargen Newydd yng Nghymru? (OAQ11209)

**Jane Davidson:** Nid cynllun creu swyddi mo'r Fargen Newydd ond rhaglen o gefnogaeth sydd wedi'i theilwra'n benodol er mwyn helpu pobl i swyddi cynaliadwy go iawn. Er gwaethaf hynny, mae ymchwil annibynnol a gynhaliwyd yn ddiweddar ar gyfer y Gwasanaeth Cyflogi yn dangos bod tua un o bob pum swydd sydd yn derbyn cymhorthdal, a oedd ar gael dan y Fargen Newydd, yn swyddi newydd.

### Ysgolion Eglwys Cynradd ac Uwchradd

**C9 David Melding:** Faint o ysgolion eglwys cynradd ac uwchradd a gaiff eu creu yng Nghymru yn ystod y 10 mlynedd nesaf? (OAQ11239)

**Jane Davidson:** Mater i bob esgobaeth yw ystyried cyflwyno cynigion ar gyfer darparu ysgolion eglwys newydd yn eu hardaloedd, yng ngoleuni'r angen am leoedd ychwanegol, galw amlwg gan rieni a'r adnoddau sydd ar gael.

### Arian Ychwanegol i Wella Ysgolion

**C10 David Davies:** Pa drafodaethau a gafodd y Gweinidog â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynghylch rhoi arian ychwanegol i wella ysgolion? (OAQ11165)

**Jane Davidson:** Ymgynghorwyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynghylch cynigion ar gyfer dosbarthu'r £26 miliwn ychwanegol a ddarparwyd ar gyfer lleihau maint dosbarthiadau iau, gwelliannau yng nghyfnod allweddol 3 a chynorthwyo ysgolion a oedd yn tanberfformio, sef testun adroddiad grant arbennig a gymeradwywyd gan y Cynulliad ar 8 Mawrth 2001; ac ynghylch dosbarthu'r £15 miliwn ar gyfer cefnogi mesurau gwella ysgolion, sef testun adroddiad grant arbennig a drafodir yn y Cyfarfod Llawn heddiw. Mae'r ddau grant ar gyfer y flwyddyn ariannol hon.

### Addysg yn y Gymuned i Oedolion

**C11 Brian Hancock:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar bwysigrwydd sicrhau darpariaeth ddigonol o addysg yn y gymuned i oedolion yng Nghymru? (OAQ11211)

**Jane Davidson:** Nod ein trefniadau newydd ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-16 yw brwydro yn erbyn allgáu cymdeithasol, hyrwyddo cyfle cyfartal a chefnogi datblygu economi o'r radd flaenaf drwy'r byd drwy gynyddu'r niferoedd sydd yn cymryd rhan mewn dysgu. Mae Dysgu ac Addysgu Cymru, ELWa, wedi derbyn cylch gwaith ar gyfer cynyddu faint o gyfleodd dysgu hyblyg a safonol sydd ar gael a'i gwneud yn haws cael gafael ar y cyfleoedd hynny.

Mae addysg yn y gymuned i oedolion yn chwarae rhan hollbwysig o ran denu ac ail-ddenu oedolion at ddysgu a, thrwy hynny, datblygu'r arfer o ddysgu. I lawer, mae'n cynrychioli cyfle i ddefnyddio neu adfywio'r meddwl neu ddatblygu sgil personol; ac i rai mae'n ris at ddysgu sefydliadol lefel uwch neu ddysgu yn y gweithle.

Mae addysg i oedolion felly yn elfen hanfodol o'r ystod eang o ddarpariaeth dysgu y mae ELWa bellach yn gyfrifol amdani. ELWa fydd yn asesu gofynion yn y maes hwn ac yn cynllunio'r gwasanaeth a ddarperir ganddo o fewn yr adnoddau sydd ar gael gan y Cynulliad i'r perwyl hwn.

### Addysg Gymraeg yn Abertawe

**C12 Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y ddarpariaeth o addysg Gymraeg yn Abertawe? (OAQ11186)

**Jane Davidson:** Mae awdurdod addysg lleol Abertawe yn dweud wrthyf y darparwyd 120 o leoedd cynradd cyfrwng Cymraeg ychwanegol ym mis Medi 2000. Cafodd 60 ohonynt eu cyllido drwy'r grant lleihau maint dosbarthiadau babanod a dderbyniwyd oddi wrth y Cynulliad Cenedlaethol. O fis Medi 2001 ymlaen, sefydlir darpariaeth ôl-16 yn Ysgol Gyfun Gŵyr.

Mae cynllun addysg Gymraeg Dinas a Sir Abertawe yn gosod targedau clir ar gyfer sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd a chynyddu'r ddarpariaeth o leoedd mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg drwy ddarparu 450 lle ychwanegol erbyn Medi 2002. Yn dilyn fy mhenderfyniad i gymeradwyo cyfuno Ysgolion Penlan a Mynyddbach ar safle Mynyddbach, mae awdurdod addysg lleol Abertawe wedi nodi y bydd yn bwrw ymlaen ag ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer adleoli posibl Ysgol Gyfun Gŵyr ar safle Penlan, a fydd yn galluogi ehangu'r ysgol.

**Bagloriaeth Gymreig (Rhaglen Beilot)**

**C13 Jocelyn Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddatblygiadau diweddar yn y broses o greu rhaglen beilot ar gyfer y fagloriaeth Gymreig? (OAQ11208)

**Jane Davidson:** Y dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno tendrau oedd 30 Ebrill. Mae'r broses werthuso bellach wedi dechrau a byddaf yn gwneud cyhoeddiad ynghylch dyfarnu'r contract yn ddiweddarach y mis hwn.

**Hyfforddi Athrawon (Torri'r Nifer o Leoedd)**

**C14 Gareth Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cynllun i dorri'r nifer o leoedd ar gyfer hyfforddi athrawon yng Nghymru? (OAQ11219) [W]

**Jane Davidson:** Mae'r dystiolaeth yn dangos bod Cymru wedi bod yn hyfforddi nifer anghymesur o uchel o athrawon cynradd, llawer mwy nag y gellir eu cyflogi yma. Ychydig iawn o swyddi gwag sydd ar gael ar hyn o bryd mewn ysgolion cynradd, mae ein cyfran o'r targedau mewn perthynas â'r rhai sydd yn cael eu derbyn i fod yn athrawon cynradd wedi bod lawer yn uwch na'r gyfran boblogaeth, o gymharu â Lloegr; ac mae'r galw am athrawon cynradd, ar y cyfan, yn gostwng. Nid ydym am foddi'r farchnad athrawon cynradd, gan na fyddai hyn o help i ddarpar athrawon nac i'r system addysg yn gyffredinol.

Yr ydym am geisio lleihau'n raddol nifer y lleoedd sydd ar gael. Yr ydym wedi gofyn am weld cynigion Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ar sut i gyflwyno cyfres o ostyngiadau sylweddol dan reolaeth yn y ddarpariaeth gynradd, yn enwedig ar lefel tystysgrif addysg i raddedigion, o 2002-03 ymlaen. Mae'r gwaith ar hyn yn parhau.

**Anghenion Addysgol Plant y Canfuwyd eu bod yn Awtistig**

**C15 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr adnoddau sydd ar gael i ddiwallu anghenion addysgol plant y canfuwyd eu bod yn awtistig? (OAQ11184)

**Jane Davidson:** Yr wyf yn ymwybodol o'r cynnydd yn nifer y plant y canfuwyd bod ganddynt anhwylderau sbectrwm awtistig. Yn y lle cyntaf fodd bynnag, gwaith yr awdurdodau addysg lleol yw cynllunio er mwyn bodloni anghenion addysgol yn unol â'u dyletswyddau statudol.

Mae'r Cynulliad wedi sefydlu prosiectau cynllunio peilot anghenion addysgol arbennig rhanbarthol i edrych ar y ddarpariaeth bresennol ac arfaethedig. Bydd pob un o'r grwpiau hyn yn nodi niferoedd y disgyblion ac amrywiaeth y ddarpariaeth sydd ar gael ar hyn o bryd. Byddant hefyd yn ystyried ffyrdd cost effeithiol ar gyfer gwneud darpariaeth briodol yn rhanbarthol.

Er hynny, yr wyf wedi penderfynu symud tuag at brosiect peilot Cymru gyfan er mwyn sicrhau y gellir cael cymaint o effeithiolrwydd â phosibl o'r ddarpariaeth bresennol ac arfaethedig.

Yr wyf hefyd wedi sicrhau y bydd £2 filiwn ar gael ar gyfer datblygu Ysgol Plas Brondyffryn, sydd yn ganolfan ranbarthol ar gyfer plant awtistig yng ngogledd Cymru.

**Triwantiaeth yn Ysgolion Gogledd Cymru**

**C16 Alison Halford:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i fynd i'r afael â thriwantiaeth mewn ysgolion yng ngogledd Cymru? (OAQ11168) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Gwasanaethau Gyrfaoedd (Mecanweithiau Sicrhau Ansawdd)**

**C17 Christine Gwyther:** Pa fecanweithiau sicrhau ansawdd sydd ar waith ar gyfer gwasanaethau gyrfaoedd yng Nghymru? (OAQ11230) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Arholiad Sgiliau Sylfaenol (Cyfle Cyfartal)**

**C18 David Lloyd:** Pa drefniadau sydd wedi'u gwneud i sicrhau cyfle cyfartal i'r rheini sydd yn dewis sefyll arholiad sgiliau sylfaenol drwy gyfrwng y Gymraeg y flwyddyn academaidd nesaf? (OAQ11220) [W] ***Tynnwyd yn ôl.***

**Ymweliadau Addysgiadol â Ffermydd Cymunedol ac Atyniadau Bywyd Gwyllt**

**C19 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog geisio sicrhau arian ar gyfer rhaglen estynedig o ymweliadau addysgiadol â ffermydd cymunedol ac atyniadau bywyd gwyllt mor fuan ag y caiff cyfyngiadau clwy'r traed a'r genau eu codi? (OAQ11183)

**Jane Davidson:** Mae'r Cynulliad yn darparu cyllid sylweddol ychwanegol ar gyfer ysgolion drwy setliad refeniw llywodraeth leol a thrwy grantiau arbennig yn 2001-02. Mater i bob ysgol yw penderfynu sut i wario'r adnoddau sydd ar gael.

Byddwn yn annog yn gryf i bob ysgol sydd wedi gorfod canslo ymweliad ei aildrefnu ar ôl i ffermydd ac atyniadau bywyd gwyllt ailagor.

**Statws Dinasyddiaeth yn y Cwricwlwm Cenedlaethol**

**C20 Richard Edwards:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar statws dinasyddiaeth ar hyn o bryd o fewn y cwricwlwm cenedlaethol? (OAQ11228) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Colegau Addysg Bellach (Addysg Cyfrwng Cymraeg)**

**C21 Elin Jones:** Pa fesurau y mae'r Gweinidog wedi eu cymryd i fynd i'r afael â'r pryderon ynghylch y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg mewn colegau addysg bellach yng Nghymru? (OAQ11201) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Strategaeth Ysgolion Gwledig**

**C22 Richard Edwards:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddatblygu strategaeth ysgolion gwledig i Gymru? (OAQ11227) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Cynllun Peilot y Fagloriaeth Gymreig**

**C23 Elin Jones:** A yw gweinyddiaeth y Cynulliad wedi gwrthod y posibilrwydd o ddatblygu model yn seiliedig ar y fagloriaeth ryngwladol ar gyfer cynllun peilot arfaethedig y fagloriaeth Gymreig? (OAQ11210) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Diffygion Cyllideb (Sylwadau gan Ysgolion)**

**C24 Cynog Dafis:** Faint o sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u derbyn gan ysgolion yng Nghymru eleni ynghylch diffygion cyllideb? (OAQ11221) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Darpariaeth Blynyddoedd Cynnar

**C25 Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y paratoadau a wneir i gyflwyno'r cynlluniau newydd ar gyfer darpariaeth blynyddoedd cynnar? (OAQ11167) [W]

**Jane Davidson:** Mae dau o argymhellion ein hadroddiad 'Gosod y Sylfaen: Estyn Darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar i Blant Teirblwydd' eisoes wedi cael eu rhoi ar waith. Mae panel ymgynghorol blynyddoedd cynnar wedi cael ei ffurfio i roi cyngor i mi ar ddatblygu cynllun gweithredu integredig, a phleser oedd bod yn bresennol yn ei gyfarfod cyntaf ar 25 Ebrill 2001. Mae'r cyfarfodydd nesaf eisoes wedi cael eu trefnu ac edrychaf ymlaen at dderbyn adroddiad am sut y maent yn dod ymlaen. Mae'r panel hefyd wedi cytuno i sefydlu is-grwpiau i archwilio'n fanylach amrywiaeth o faterion allweddol sydd yn codi o'r adroddiad ac maent hwythau hefyd wedi cytuno ar ddyddiadau ar gyfer eu cyfres eu hunain o gyfarfodydd.

Mae'r swyddogion hefyd wedi ysgrifennu at yr awdurdodau addysg lleol, yn ogystal â phartneriaethau datblygu'r blynyddoedd cynnar a gofal plant yng Nghymru, am yr archwiliad o'r ddarpariaeth bresennol ac amcangyfrifon o'r galw yn y dyfodol, a fydd yn help i gynllunio'r anghenion o ran datblygu a'r goblygiadau o ran cost.

Mae pob un sydd ynghlwm wrth hyn yn cydnabod ein bod yn awyddus i sicrhau bod darpariaeth lawn hanner-amser yn cael ei gwneud ar gyfer pob plentyn teirblwydd, yn unol â dymuniad y rhieni, erbyn Medi 2004 ac yr wyf yn hyderus y caiff hynny ei gyflawni.

## Triwantiaeth ac Absenoldeb mewn Ysgolion

**C26 David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch lefelau triwantiaeth ac absenoldeb mewn ysgolion yng Nghymru? (OAQ11212) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Addysg Bellach (Adnoddau Ychwanegol)

**C27 Christine Gwyther:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch unrhyw adnoddau ychwanegol a ddyrannwyd yn ddiweddar i addysg bellach yng Nghymru? (OAQ11229) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Diwydiant Twristiaeth (Hyfforddiant)

**C28 Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog fwy i annog hyfforddiant sydd yn berthnasol i waith yn y diwydiant twristiaeth yng Nghymru? (OAQ11179)

**Jane Davidson:** Mae Fforwm Hyfforddi Twristiaeth Cymru eisoes yn gweithio er mwyn datblygu polisi datblygu addysg a hyfforddiant integredig er budd y diwydiant twristiaeth yng Nghymru. Cynhelir trafodaethau rhwng y Bwrdd Croeso ac ELWa gyda golwg ar gryfhau swyddogaeth y fforwm. Yn ogystal, yr wyf yn ymwybodol o effaith yr achosion o glwy'r traed a'r genau ar y diwydiant. Er mwyn helpu i liniaru'r effaith hon, mae ELWa yn paratoi pecyn o fesurau er mwyn helpu'r rheini yr effeithiwyd arnynt. Bydd y mesurau hyn yn cynnwys hyfforddiant a chyfleoedd datblygu sgiliau a ddyluniwyd i gadw personél profiadol yn ystod yr adegau anodd hyn. Byddant hefyd yn arfogi busnesau ym maes twristiaeth gyda staff sydd wedi eu cymhwyso'n well i'w galluogi i adfer yn gynt pan fydd y problemau yn cilio.

## Addysg Bellach (Gwendidau mewn Darpariaeth)

**C29 Cynog Dafis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r gwendidau mewn darpariaeth yn y sector addysg bellach a nodwyd yn adroddiad blynyddol Estyn? (OAQ11203) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Hyfywedd Ysgolion Bach

**C30 Kirsty Williams:** Pa gamau y mae’r Gweinidog yn bwriadu eu cymryd i sicrhau ei bod yn bosibl cadw ysgolion bach yn hyfyw? (OAQ11265)

**Jane Davidson:** Mae i awdurdodau addysg lleol benderfynu ar hyfywedd ysgolion unigol. Rhaid i ystyriaethau addysgol fod o’r pwys mwyaf mewn penderfyniadau o’r fath.

Drwy eu cynlluniau trefnu ysgolion, gofynnir i awdurdodau addysg lleol asesu’r galw am leoliadau ysgol a faint sydd ar gael a llunio casgliadau ynghylch a fyddai patrwm presennol eu darpariaeth bresennol yn cyflwyno gwasanaeth addysg safonol, gost effeithiol sydd o fewn cyrraedd pawb.

Pan fydd awdurdodau yn penderfynu bod angen newid patrwm y ddarpariaeth, rhaid iddynt ystyried yr effaith ar safonau addysgol, ar y dewis i rieni, ar gymunedau lleol a’r dewisiadau eraill ar wahân i gau, megis cyfuno. Pan fydd cynigion i gau neu newid yn denu gwrthwynebiad, byddant yn dod ger fy mron i mi benderfynu arnynt. Edrychaf ar bob achos yn ôl ei deilyngdod.